**(HCC 888)**

**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 10.30am Yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth ddydd Iau 2 Mai 2019**

**Yn Bresennol:** Kevin Roberts (Cadeirydd)
Gareth Wynn Davies, Huw Davies, John Davies, Barrie Jones, Rachael Madeley Davies, Catherine Smith, Claire Williams ac Ogwen Williams

**Trwy Wahoddiad:** -

**Y Weithrediaeth A oedd yno:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Kirsten Hughes, Swyddog Gweithredol Cig Coch (Eitem7)
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)
John Richards (Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant)
Owen Roberts (Rheolwr Cyfathrebu)

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu'n eu mynychu oddi ar y cyfarfod blaenorol o'r Bwrdd: -

28 Chwefror 2019 – Bu'r Cadeirydd mewn digwyddiad yn Nhŷ'r Arglwyddi a gafodd ei drefnu gan y Cynllun Tractor Coch i gyhoeddi canlyniadau astudiaeth meincnodi / ymchwil o gynlluniau gwarant fferm.

6 Mawrth 2019 – Bu'r Cadeirydd mewn cyfarfod o Fwrdd y Rhaglen Gwerthoedd Brandiau Cynaliadwy.

7 Mawrth 2019 – Bu'r Cadeirydd yng nghyfarfod Bord Gron Brexit pan oedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar baratoadau Brexit ar gyfer 29 Mawrth 2019.

19 Mawrth 2019 – Bu'r Cadeirydd yn cymryd rhan yn niwrnod hyfforddi'r Bwrdd Cyfathrebu, ac wedyn bu ef a'r Prif Weithredwr yng nghinio Blas Cymru, lle'r oedd HCC yn un o'r prif noddwyr.

20 Mawrth 2019 – Digwyddiad Blas Cymru yn y Celtic Manor, Casnewydd

Roedd y Cadeirydd a'r Weithrediaeth o'r farn y cafodd y digwyddiad ei drefnu'n dda. Roedd nifer fawr o brynwyr rhyngwladol / allforio yn bresennol, ac felly roedd cyfle da i greu cyfleoedd newydd. Croesawyd cefnogaeth HCC i'r digwyddiad gan Lywodraeth Cymru.

21 Mawrth 2019 – Bu'r Cadeirydd yng nghyfarfod Grŵp Ymgynghorol Ewropeaidd Llywodraeth Cymru yng Nghaerdydd dan gadeiryddiaeth Huw Irranca-Davies AC. Ymhlith y pynciau a drafodwyd roedd diweddariad am ddatblygiadau a thrafodaethau mewn perthynas â Brexit a'r goblygiadau o ran cysylltiadau rhynglywodraethol a fframweithiau cyffredin.

11 Ebrill 2019 – Cyfarfu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr â Jeff Grant, Bwrdd Cig Seland Newydd, yn HCC. Bu trafodaeth am faterion rheoli mewn perthynas â Brexit, a'r prif bwnc trafod oedd Newid yn yr Hinsawdd.

29 Ebrill 2019 – Cyfarfu'r Cadeirydd â Penny Nelson, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol Polisi a Masnach Llywodraeth Seland Newydd, a oedd yn ymweld â'r DG. Ymhlith y materion a drafodwyd, roedd systemau cynaliadwy i gynhyrchu bwyd, diwygio polisi amaethyddol ac, yn bennaf, Newid yn yr Hinsawdd.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Cafwyd ymddiheuriadau gan Helen Howells, Aelod o'r Bwrdd; Mark Alexander a Maria Richards, Llywodraeth Cymru (roedd y ddau yng nghyfarfod bord gron Brexit y Gweinidog); a Rhys Llywelyn, Rheolwr Datblygu'r Farchnad (a oedd mewn sioe fasnach yn Hong Kong).

3. **Datganiadau o Fuddiannau**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

4. **I gymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Mercher 27 Chwefror 2019 (HCC 879)**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Mercher 27 Chwefror 2019 wedi'u darllen, a chawsant eu cymeradwyo gan y Bwrdd ac yna'u llofnodi gan y Cadeirydd yn amodol ar y newidiadau a ganlyn: -

*Tudalen 4 - Eitem 6 / Materion yn Codi o'r Sector Lladd a Phrosesu / Paragraff 2*

Byddai'r testun fel a ganlyn: -

"Wedi trafodaeth, daeth yn glir fod y sylwadau'n ymwneud â'r ffaith fod yna deimlad ymhlith aelodau Cymdeithas yr Arwerthwyr Da Byw (LAA) fod gan rai o aelodau Bwrdd HCC gysylltiadau cryf ag un prosesydd pwysig."

*Tudalen 11 – Eitem 12 / Unrhyw Fater Arall*

Dywedodd un o Aelodau'r Bwrdd, Cath Smith (CW) fod y mater a godwyd ganddi yng nghyfarfod blaenorol y Bwrdd ynghylch addysg ac adnoddau bwyd mewn ysgolion yn sylw cyffredinol a wnaed gan aelod o'r NFU yn Sir Fynwy mewn cyfarfod sirol o'r undeb yn ddiweddar. Cytunwyd y byddai CW roi gwybod i'r sawl a gododd y mater am waith HCC yn hyn o beth.

5. **Materion yn codi**

*Grŵp HCC ar gyfer Ymgysylltu â'r Diwydiant (ILG)*

Roedd y cyfarfod nesaf i fod i gael ei gynnal ddydd Iau 23 Mai 2019 a byddai un o Aelodau'r Bwrdd, Claire Williams, yn y gadair. Byddai rhanddeiliaid ar draws y gadwyn gyflenwi yn cael eu gwahodd.

Nodwyd bod cyfarfod ILG i ystyried syniadau sganio'r gorwel mewn perthynas â phroses gynllunio HCC ar gyfer Cynllun Gweithredol 2020 / 2021 i fod i gael ei gynnal ar 15 Hydref 2019.

*Polisi Dosbarthu a Thrafod Gwybodaeth HCC*

Roedd y gwaith yn mynd yn ei flaen ynghylch datblygu gwasanaeth storio system-gwmwl i'w ddefnyddio i storio a rhannu holl ddogfennau cyfrinachol HCC, fel papurau'r Bwrdd a Phwyllgorau.

*Cynllun Corfforaethol HCC 2019 / 2022 a Chynllun Gweithredol 2019 / 2020*

Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod, fel Prif Weithredwr/Swyddog Cyfrifo, wedi cael Llythyr Cylch Gwaith gan y Gweinidog, yn nodi cyfrifoldebau HCC ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019 / 2020.

I grynhoi, cydnabu'r Gweinidog ein bod mewn cyfnod o ansicrwydd mawr oherwydd Brexit a phwysleisiodd bwysigrwydd gwneud yn siŵr fod y diwydiant cig coch yn barod i ymateb i newid diffelyb yn y modd gorau posibl.

Croesawodd y Gweinidog ymgysylltiad parhaus â HCC, yn enwedig wrth ddatblygu polisïau a busnes / deddfwriaeth Llywodraeth Cymru ar ôl Brexit, gwaith parhaus ar ailwladoli'r Ardoll Cig Coch ac adrodd ar garcasau cig defaid.

Roedd y camau penodol yn y Llythyr Cylch Gwaith wedi cael eu hadolygu gan y Weithrediaeth ac wedi cael eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredol ar gyfer 2019 / 2020.

6. **Y diweddaraf am Brexit - I drafod y datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â'r DG yn ymadael â'r UE**

Nid oedd unrhyw ddiweddariad am fod trafodaethau yn y Senedd yn parhau ar ôl i Gytundeb Ymadael arfaethedig y Llywodraeth gael ei wrthod am y drydedd waith gan Aelodau Seneddol. Wedyn roedd arweinwyr yr UE wedi cytuno i roi estyniad o chwe mis i'r DG ar gyfer Erthygl 50, hyd at 31 Hydref 2019.

Roedd yn ymddangos yn annhebygol iawn y ceid cytundeb cyn yr etholiadau Ewropeaidd ar 23 Mai 2019, ac felly byddai gofyn i'r DG gymryd rhan yn y rheiny.

Ar fater Llywodraeth / gwleidyddol arall, dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd disgwyl i daith y Mesur Amaethyddiaeth drwy'r Senedd ddod i ben tan yn ddiweddarach yn yr haf neu ddechrau'r hydref.

Atgoffwyd y Bwrdd fod cymal newydd arfaethedig ymhlith y rhestr hirfaith o welliannau arfaethedig yn y Mesur Amaethyddiaeth, a fyddai'n galluogi deddfu Cynllun a fyddai'n caniatáu yn gyfreithiol i Ardollau Cig Coch gael eu trosglwyddo rhwng Byrddau Ardoll Prydain. Byddai hyn yn adlewyrchu'r ffaith y gallai rhai gwartheg, defaid neu foch a gynhyrchir mewn un wlad gael eu lladd mewn gwlad arall. Ar hyn o bryd, ni chaniateid i daliadau Ardoll gael eu gwneud rhwng Byrddau Ardoll Prydain.

7. **<u>Adroddiadau HCC</u>**

a. <u>Gweithgareddau (HCC 880)</u>

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

*<u>Cyfathrebu</u>*

Parhaodd yr adran Gyfathrebu i gynllunio o amgylch y senarios cyfredol a pharhaus sy'n ymwneud â Brexit fel y gallai negeseuon gael eu cyhoeddi'n gyflym ac mewn modd amserol.

Dywedodd y Rheolwr Cyfathrebu y bu diddordeb sylweddol yn y cyfryngau mewn materion brandio yn ystod y cyfnod. Roedd hyn yn rhannol oherwydd ymchwiliad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, y rhoddodd y Prif Swyddog Gweithredol dystiolaeth iddo, i gefnogi gwerth brandiau PGI Cymru i ddynodi cig o'r ansawdd gorau. Hefyd, cafwyd darllediad nodwedd gan BBC Cymru, a chyfrannodd HCC ddeunydd cefndir helaeth ar ei gyfer.

Cafwyd trafodaeth ynghylch gwaith cyfathrebu HCC ar Newid yn yr Hinsawdd, yr amgylchedd a'r goblygiadau o ran polisi ar ôl PAC. Byddai negeseuon allweddol yn parhau i gael eu datblygu a byddai'r rhain yn drawiadol ac yn anelu at fod yn benodol Cymreig.

*<u>Prosiect Meincnodi Cig Coch</u>*

Rhoddodd Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant ddiweddariad o'r uchod: -

- Roedd yr adroddiad drafft terfynol ar ganlyniadau a chanfyddiadau'r ymarfer wedi'i gwblhau gan Andersons Consulting a byddai'n cael ei adolygu gan HCC a Llywodraeth Cymru cyn ei gyhoeddi. Roedd trafod yn digwydd gyda swyddogion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gweinidog yn lansio'r adroddiad

- Byddai'r 1500 o ffermwyr a oedd wedi cwblhau'r ymarfer yn derbyn e-bost gyda chyfarwyddiadau ar sut i gael gafael ar eu data trwy'r system Mesur i

Reoli ddechrau mis Mai 2019 er mwyn meincnodi eu hunain yn llawn mewn cymhariaeth â'u cymheiriaid. Hefyd, byddai cyfres o sesiynau cymorth i drafod y canlyniadau yn unigol gyda chyfranogwyr yn cael eu cynnal ledled Cymru gan Gyswllt Ffermio

- Byddai'r Weithrediaeth yn arwain ar drefniadau mewn perthynas â chyfathrebu ar ganlyniadau'r prosiect (cynnwys yr adroddiad a'r gwersi a ddysgwyd ac ati) a byddai'n cysylltu â Llywodraeth Cymru a Chyswllt Ffermio ynglŷn â hyn.

*Mamwladoli Ardoll Cig Coch*

Rhoddodd y Swyddog Gweithredol Cig Coch gyflwyniad a diweddariad i'r Bwrdd ar Gynllun arfaethedig a gyd-luniwyd gan y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB), Quality Meat Scotland (QMS) a HCC a fyddai'n golygu y gellid ailwladoli ardollau cynhyrchwyr.

Roedd egwyddorion sylfaenol y Cynllun fel a ganlyn: -

- Os yw anifail yn cael ei symud dros ffin o wlad ei enedigaeth i'w ladd yn syth, dylai gwerth llawn yr ardoll cynhyrchwyr ddychwelyd i'r wlad lle cafodd yr anifail ei eni

- O ran anifeiliaid a aned mewn un wlad a'u pesgi mewn gwlad arall, dylid rhannu'r ardoll cynhyrchwyr

- Oherwydd cyfraddau ardoll gwahanol ar draws Prydain, dylid defnyddio'r ardoll cynhyrchwyr sy'n bodoli yn y wlad lle lladdwyd yr anifail

- Ni ddylid ystyried cyfnod beichiogi

- Dylid defnyddio cyfnod preswyl yn sail ar gyfer rhannu taliadau

- Os nad yw hynny'n bosibl, dylid defnyddio gwerth economaidd

- Yn niffyg hyn, dylid defnyddio poblogaethau da byw magu, gan roi blaenoriaeth I besgi

**Y Camau Nesaf**

- Roedd angen gwneud yn siŵr fod yr egwyddorion yn gwneud synnwyr, gan defnyddio'r fformiwla ar ddata go-iawn

- Penderfynu a yw'n briodol ai peidio

- Penderfynu ynghylch y manteision ariannol i Gymru

- Amcangyfrifwyd y gallai gweithredu'r egwyddorion hyn ar gyfer HCC olygu ennill dros £1miliwn

Cytunodd y Bwrdd i'r egwyddorion a'r fethodoleg arfaethedig a byddai'n cael ei ddiweddaru ynglŷn â datblygiadau.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod blwyddyn gyntaf gweithgaredd y Gronfa a Glustnodwyd (RFF) (2018/2019) wedi dod i ben ac er nad oedd yn ateb parhaol, ar y cyfan roedd yr ymgysylltu a'r darparu gydag AHDB a QMS wedi gweithio'n dda.

b. Crynodeb o Fwletin y Farchnad (HCC 881)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

c. Ariannol – Incwm a Gwariant a'r Fantolen tan 31 Mawrth 2019 (HCC 882)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei grynhoi gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol.

d. Digwyddiadau i ddod (HCC 883)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

e. I gael papur ar Adolygiad Diwedd Blwyddyn o Gynllun Gweithredol HCC 2018 / 2019 (HCC 884)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafwyd crynodeb gan y Swyddog Cig Coch.

Roedd y Bwrdd yn fodlon â chanlyniad yr adolygiad diwedd-blwyddyn.

8. **Pwyllgorau HCC**

*Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg*

a. I dderbyn adroddiad llafar a mabwysiadu'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Mercher 27 Chwefror 2019 (HCC 885)

Cafwyd adroddiad llafar ar yr uchod gan Gadeirydd y Pwyllgor.

Cymerwyd bod y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ddydd Mercher 27 Mawrth 2019 wedi'u darllen, a chawsant eu mabwysiadu gan y Bwrdd.

*Y Pwyllgor Cynghori  ar Farchnata*

b. I fabwysiadu'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata a gynhaliwyd ddydd Llun 11 Chwfror 2019 (HCC 886)

Cymerwyd bod y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori Ar Farchnata a gynhaliwyd ddydd Llun 11 Chwefror 2019 wedi'u darllen, a chawsant eu mabwysiadu gan y Bwrdd.

*Y Pwyllgor Cynghori ar Ymchwil a Datblygu a Chyfnewid Gwybodaeth (R&D&KE)*

c. I dderbyn adroddiad llafar a mabwysiadu'r cofnodion drafft o gyfarfod y Pwyllgor Ymchwil a Datblygu a Chyfnewid Gwybodaeth (R&D&KE) a gynhaliwyd ddydd Mercher 6 Mawrth 2019 (HCC 887)

Rhoddodd y Cadeirydd dros dro, Claire Williams adroddiad llafar ar yr uchod.

*Y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu*

d. I gael adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu a gynhaliwyd ddydd Iau 2 Mai 2019

Cafwyd adroddiad llafar ar yr uchod gan Gadeirydd y Pwyllgor.

*Y Gweithgor Iechyd A Lles Diadelloedd a Buchesi (FHH&WW)*

e. I gael adroddiad llafar am gyfarfod Gweithgor FHHWG a gynhaliwyd ddydd Mercher 1 Mai 2019

Cafwyd adroddiad llafar ar yr uchod gan Gadeirydd y Pwyllgor.

9. **Unrhyw fater arall**

*Cyfarfod Bwrdd Da Byw yr NFU – Ddydd Iau 18 Ebrill 2019*

Diolchodd Aelod o'r Bwrdd, Huw Davies, i Kirsten Hughes, Swyddog Gweithredol Cig Coch am ei chyflwyniad yn yr uchod ar Gynlluniau Corfforaethol (2019 - 2022) a Gweithredol (2019 / 2020) .

*Staffio HCC*

Nodwyd bod Medi Jones-Jackson wedi'i phenodi'n Swyddog Gweithredol Digwyddiadau a'i bod wedi cychwyn ar ei gwaith gyda HCC ar 1 Mai 2019.

Byddai'r swyddi canlynol yn cael eu hysbysebu'n fuan ac anogwyd y Bwrdd i gyfleu'r wybodaeth a rannwyd mewn perthynas â'r swyddi gwag â'u cysylltiadau: -

*HCC*

S
Swyddog Ymchwil a Datblygu;

*Rhaglen Datblygu Cig Coch*

Cydgysylltydd Cyflawni Rhaglenni
Swyddog Cyflawni Rhaglenni
Cynorthwyydd Gweinyddol

*EIDCymru*

Uwch Swyddog Technegol
Cydgysylltydd Swyddfa
Goruchwylwyr Swyddfa (x2)
Gweinyddwyr Swyddfa (Tymhorol)

10. **Dyddiadau cyfarfodydd i ddod:**

Telegynhadledd diweddaru'r Bwrdd – Dydd Iau 6 Mehefin 2019 am 9.30am
Cyfarfod o Fwrdd HCC – Dydd Iau 4 Gorffennaf 2019 am 10.00am

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**